# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 3ydd o Orffennaf 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr (Cadeirydd) Anwen Jones, Sian Angharad Parry, Aled Davies, Dylan Thomas, Miriam Williams, Rhys Tudur, Dewi Thomas, Aled Evans, Delyth Parry, Tegid Jones, Angela Williams, Gareth Davies, Angharad Llwyd-Jones, Darren Morley a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Euros Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 5ed o Fehefin 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mehefin 2025.**

4. **Datgan buddiant personol** Cynghorydd Angela Williams, Eitem rhif 16- pris glanhau matiau du cae chwarae Llangybi-cyswllt â'r person oedd yn cynnig pris.

5. **Un Llais Cymru**

**a)** **Cynhadledd Arfer Arloesol, Llanelwedd, 02.07.2025** – Clerc wedi cael gwybod gan Un Llais Cymru nad oedd yn bosib cael cyswllt rhithiol i'r Gynhadledd, oherwydd ei bod yn cynnal gweithdai mewn 4 ystafell. Cadarnhwyd y byddent yn anfon adroddiad at y cynghorau yn cynnwys y materion a drafodwyd, fel bod y Clerc yn medru rhannu'r wybodaeth hefo'r Cynghorwyr. **Derbyn.**

**b)** **Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor, 08.07.2025**, yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli – y Cynghorydd Aled Evans a'r Clerc am fynychu'r cyfarfod.

**c)** **Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethiant newydd Un Llais Cymru.**

Darpariaeth newydd yn cynnwys symleiddio'r trefniadau ar gyfer sicrhau cworwm mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gwella effeithiolrwydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. Mae'n rhaid mabwysiadu'r newidiadau yma'n ffurfiol. Felly, fe gynhelir Cyfarfod Cyffredinol Arbennig i ystyried hyn, trwy gyswllt o bell am 16.00, dydd **Mercher 3 Medi 2025**.
Mae angen 20% o aelodau Cynghorau drwy Gymru i fod yn bresennol er mwyn gallu cynnal y cyfarfod a bydd yr agenda yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau a fwriedir i'r cyfansoddiad. **Dylai pob Cyngor enwebu un o'i Cynghorwyr i fod yn bresennol**, ac eilydd rhag ofn na fydd yr enw cyntaf yn gallu bod yn bresennol.
Mae angen anfon enwau a chyfeiriadau e-bost y cynrychiolydd ac eilydd at Tracy Gilmartin tgilmartin@unllaiscymru.cymru
Mae'n rhaid i unrhyw Gyngor sydd eisiau cyflwyno gwelliannau i'r cyfansoddiad arfaethedig newydd adael i'r Clerc wybod yn ysgrifenedig erbyn 15.08.2025. Cyhoeddir canllawiau ar sut i ddefnyddio'r system bleidleisio cyn y cyfarfod. Cytunodd y Cyngorydd Dylan Thomas i fod yn bresennol.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Tîm Tacluso Ardal Ni** – yn Llanystumdwy rhwng 14.07.2025-18.07.2025.

7. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad - dim**

**Ceisiadau cynllunio a ddaw yn ystod Gorffennaf ac Awst 2025** – cytuno i'r Clerc anfon y manylion at bawb drwy ebost i bawb gael cyfle i roi sylwadau arnynt , yna ymgynghori a gwneud penderfyniad hefo'r Cadeirydd/Is Gadeirydd. Os bydd angen, gellir cynnal cyfarfod byr i'w trafod yn rhithiol.

8. **Clybiau Ieuenctid Cymunedol**. – Mr Steffan Williams, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid, Cyngor Gwynedd yn cynnig sefydlu, neu ail sefydlu Clwb Ieuenctid yn yr ardal i bobl ifanc rhwng 11-18 oed am 30 wythnos o'r flwyddyn. Byddai angen i'r Cyngor Cymuned gyfrannu at y gost o gynnal y clwb. **Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Rheolwr Gwasanaeth i gael mwy o wybodaeth, ac yn disgwyl ateb.**

9. **Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref a Chymuned.**
Derbyniwyd ebost gan Alys Jones, Swyddog Prosiect Adfywio Trefi, Cyngor Gwynedd, yn cynnig uchafswm o £6.500.00 i Cyngor Cymuned Llanystumdwy. (a phob cymuned arall yng Ngwynedd). Y pwrpas fyddai i ddatblygu cynlluniau sydd yn gwella ei cymuned, drwy edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd. Enghreifftau o hyn fyddai:-

- Cyfraniad tuag at ddigwyddiadau.
- Prosiectau gwella amgylchedd/harddu.
- Offer neu welliant i barciau/ardaloedd gwyrdd/cyfleusterau.
- Deunydd marchnata a/neu hyrwyddo lleol.
- Cynlluniau Celf Cyhoeddus.
- Cynlluniau dehongli treftadaeth/diwylliannol.

Ni ellir gefnogi'r rhestr isod drwy'r Gronfa:-

- Gweithgaredd sydd yn hyrwyddo crefydd.
- Talu benthygiad.
- Costau arferol cynnal a chadw offer, tiroedd ac adeiladau.
- Costau cyflogi swyddi.
- Gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal y tu allan i ffiniau y Cyngor Cymuned.
- Dyraniadau ar ffurf grant/rhodd i unigolion/sefydliadau/cwmniau.
- Costau craidd Cyngor Cymuned fel yswiriant.

**Cynigiwyd yn y cyfarfod diwethaf byddai'n bosib glanhau cerrig beddi enwogion yr ardal, creu hysbysfwrdd Eifion Wyn/ y Lôn Goed, ac efallai gael mwy o arwyddion llechi ar weddill pontydd yr ardal. Angen trafod.**
Bydd angen cwblhau ffurflen gais, erbyn 31.07.2025, a bydd angen gwario a chwblhau y gwaith erbyn 31.12.2025.
Eglurwyd fod ateb wedi dod yn dweud na fyddai'n bosib cyfrannu at lanhau gerrig beddi oherwydd ei fod yn dod o dan 'gynnal a chadw'.
Gofynwyd i'r Clerc wneud cais ac ymholiadau pellach i gael y canlynol:-
**4 arwydd llechen enw pontydd**, Pont y Felin, Pont Gaerddu Bach, Pont y Pandy a Phont Ffridd-lŵyd Afonwen.
**Arwyddfwrdd gwybodaeth am Feirdd ym Mynwent Chwilog** – Eifion Wyn, Robat ap Gwilym, Sion Wyn a Myrddin Fardd.
**Cangen newydd o'r Urdd** yn Llanystumdwy – talu costau cynnal digwyddiadau.

**Cynnal cyngerdd** – holi i weld os fyddai hyn yn bosib o dan reolau'r gronfa.

10. **Gwarchodfa Natur Aberogwen – Llyn Celanedd yn cael ei enwi yn 'The Spinnies'.** Cais i anfon ebost at Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i ddefnyddio'r enw 'Llyn Celanedd' yn lle 'The Spinnies'. Cytuno i wneud hyn.

**Materion yn y gymuned**.

11. **Llanystumdwy**
a) **Safle ger Maes Llwyd, Llanystumdwy** - cais gan Cymdeithas Tai Gogledd Cymru i gael enw ar y safle ar gyfer y 6 tŷ fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu yno.
Bu'r Cynghorydd Miriam Williams yn Ysgol Llanystumdwy yn trafod a dewis enw ar gyfer y safle newydd hefo dosbarthiadau blwyddyn 3,4, 5 a 6, a diolchwyd iddi am ei gwaith.
Dewiswyd y tri enw isod ar ol pleidlais yn yr ysgol ymysg y plant:-

**Hen Gae -** oherwydd mai cae oedd o yno o'r blaen.
**Cae Congl -** oherwydd ei fod ar y gongl.
**Cae'r Ffordd -** oherwydd ei fod rhwng y ddwy lôn.

Derbynwyd dau gynnig arall hefyd sef:-
**Cae Hetar -** gan un o'r pentrefwyr.

**Cae'r Felin -** cynnig oedd yn boblogaidd ymysg y Cynghorwyr ar ol i'r Cynghorydd Miriam Williams edrych ar hen fapiau degwm, a gweld mai *Llanystumdwy Mill* oedd perchennog y cae yn 1836.

Derbyniwyd gwybodaeth fod yr ysgol angen sied newydd i gadw pethau oedd yn yr hen storfa sydd rŵan yn brif fynedfa i'r ysgol.
Mae'r Clerc wedi holi Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn garedig, gan efallai y byddent fel cwmni yn fodlon ystyried gwneud cyfraniad i'r ysgol tuag at hyn.

Derbyniwyd ymateb Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn dweud:-
*"Mae hyn yn wych, diolch yn fawr iawn i chi, y Cynghorwyr a'r Ysgol am eich gwaith a cyfraniad at hyn. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr awgrymiadau.*
*Mi fyddwn yn rhoi y cais ymlaen i Cyngor Gwynedd cyn gynted a phosib. Unwaith y cawn gadarnhad ganddynt o pa enw y byddant yn ei ddewis fe ddoi yn ol atoch chi. "*

12. **Eglwys a Phont Llanystumdwy** – fe anfonodd y Clerc ebost at Tím Tacluso, Cyngor Gwynedd yn gofyn tybed a fyddent yn gallu twtio'r chwyn a thyfiant ar y bont, ac ar y clawdd o flaen yr Eglwys. Fe wnaed y gwaith ar unwaith ganddynt.

13. **Rhoslan/Ynys**
14. **Chwilog**
**Datblygiad posib ar gyfer 25 uned gan Grŵp Cynefin ar dir Bryn Hyfryd, Chwilog**

Mae Grŵp Cynefin yn edrych ar ddatblygiad posib o dai fforddiadwy yn Chwilog ar dir Bryn Hyfryd. Bydd y math o dai terfynol i'w gadarnhau, er mwyn ei gosod ar sail rhent cymdeithasol a rhent canolraddol.
Mae Gwyndaf Williams, Rheolwr Datblygu Gorllewin Grwp Cynefin wedi gofyn am gael dod i gyflwyno eu cynlluniau, a derbyn adborth a sylwadau yn ein cyfarfod nesaf ar 04.09.2025. Fe wnaiff baratoi pecyn hefo gwybodaeth ar y cynlluniau o dan sylw a'i anfon o flaen y cyfarfod.
**Derbyn a phwysleisio bydd angen polisi gosod cadarn hefo gosod yr eiddo i denantiaid yno**.

15. **Pencaenewydd/Sardis - dim**
16. **Llangybi – derbyniwyd pris ar noson y cyfarfod i lanhau y matiau duon y cae chwarae hefo 'glanhawr pwerus'. Derbyniwyd y pris.**

17. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – roedd clo'r hysbysfwrdd ym Mhencaenewydd wedi torri, felly yn dilyn derbyn caniatâd gan y Cadeirydd, gofynwyd i Mr Alun Owen am bris i'w drwsio. Cytunwyd i ofyn wrtho ei drwsio. Gwnaeth hefyd gynnig pris am roi 2 got o staen ar y 4 hysbysfwrdd sydd gennym, ac fe gytunwyd i ofyn wrtho wneud y gwaith.

18. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.06.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. **Derbyn**.

19. **Archwilio mewnol** - Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan archwilwyr mewnol, Cyngor Gwynedd fod popeth yn iawn.
Y Clerc wedi anfon y manylion at Archwilio Cymru rwan, ar gyfer archwiliad llawn, ac wedi rhoi rhybudd ar y wefan a'r hysbysfyrddau.

20. **HSBC** – cadarnhau na fydden nhw'n tynnu £5.00 o ffioedd costau misol o'r 01.07.2025 ymlaen, fel rhan o benderfyniad i gefnogi 'sefydliadau bach'. **Derbyn**.

21. **Cyflog a chostau y Clerc mis Gorffennaf 2025** – caniatau i'w dalu ar ol 01.08.2025, oherwydd na fydd cyfarfod yn ystod mis Awst, y Cadeirydd wedi llofnodi'r ddogfen yn dangos y manylion.

22. **Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu biliau (os bydd angen) yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2025**, ar ol ymgynghori a chael caniatad drwy ebost gan y Cadeirydd. Bydd y manylion i gyd yn cael ei rhoi ar rhaglen a chofnodion mis Medi 2025.

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Alun Owen (3010) | Gosod clo newydd ar hysbysfwrdd Pencaenewydd | **52.90** | **10.58** | **63.48** | **63.48** |
| Gareth Jones (000171) | Gwaith cychwynol tacluso Bedd Lloyd George | **80.00** | | **80.00** | **80.00** |
| *Neuadd Llanystumdwy* | *Llogi ystafell 01.05.25 / 05.06.25 / 03.07.25 (bil wedi ei awdurdodi yng nghyfarfod 03.07.25-wedi cyrraedd rhy hwyr i'w roi ar y rhaglen)* | **45.00** | | **45.00** | **45.00** |

24. Cyflog mis Mehefin a Gorffennaf 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| Enw/Rheswm | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2025<br>35 awr y mis x £18.26 = £639.10 | 639.10<br>Llai treth-<br>£127.82 =<br>**£511.28** | **511.28** | **511.28** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2025<br>£639.10 x 20% = £127.82 | **£127.82** | **127.82** | **127.82** |
| Costau swyddfa Clerc Mehefin 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2025<br>35 awr y mis x £18.26 = £639.10 | 639.10<br>Llai treth-<br>£127.82 =<br>**£511.28** | **511.28** | **511.28** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2025<br>£639.10 x 20% = £127.82 | **£127.82** | **127.82** | **127.82** |
| Costau swyddfa Clerc Gorffennaf 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **04.09.2025** fydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom.

25. **Coed Glasfryn Fawr, Pencaenewydd** – gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd oherwydd bod angen ei torri, a bod tractorau yn cael trafferth pasio.

26. **Tregarn, Pencaenewydd** – cwynion fod trelar ceffyl, carafan a 2 gwch tu allan i'r tai, a 'sgrap' ar drelar yn y lon yn gyson. Dywedwyd fod llawer o ffraeo ymysg rhai o'r tenantiaid a roedd hyn yn amharu ar weddill y trigolion sydd yn byw yno. Mae llawer o weithgareddau yn cael ei cynnal y capel, ac mae hyn yn amharu arnynt, a chreu diffyg lle i barcio.

27. **Neuadd Llanystumdwy** – wedi derbyn anfoneb am logi'r Neuadd a cytunwyd i'w dalu (gweler uchod rhif 23).

28. **Baw ci ym Mhencaenewydd** – gofynwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd.

29. **Problemau parcio Maen y Wern, Llanystumdwy** – gofynwyd i'r Clerc ofyn am osod llinnellau melyn at rhif 6 a 7, a bod problemau ar y tro ger rhif 10.

30. **Tý Canton, Llanystumdwy** – Gwrych angen ei dorri.

31. **Pont y Merched, Llangybi** – gofyn i'r Clerc holi eto am ddiweddariad ynglyn â pha bryd bydd y lle'n cael ei dacluso, a pha bryd bydd y bont bren yn cael sylw. Mae'r canllaw wedi malu, a dywedwyd ei bod yn dipyn o her i gael y plant drosti'n ddiogel.